# Adroddiad Blynyddol 2018/19

# Cyng. Charles W Jones

# Plaid Cymru

# Ward Llanrug



Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn

Gweler y ddolen i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau, pwyllgorau a chyrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb

## Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

- Helpu fy etholwyr gyda cheisiadau am denantiaeth gyda Chymdeithasau Tai
- Delio gyda cheisiadau cynllunio a chynrychioli barn fy etholwyr mewn trafodaethau gyda Swyddogion ac yn y Pwyllgor Cynllunio
- Cynorthwyo Mudiadau Lleol – e.e. Pwyllgor Ffair Haf Ysgol Gynradd Llanrug
- Mynychu cyfarfodydd o Banel Penodi Dirprwy Bennaeth Newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Llanrug
- Helpu etholwyr gyda phroblemau traffig/ffyrdd yn y Ward - e.e. ceisiadau am linellau gwyn yma ac acw a chyflwr ffyrdd yn y Pentref
- Mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanrug i drafod materion yn y Ward – e.e. ceisiadau cynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol
- Mynychu cyfarfod gyda thenantiaid Hafan Elan/Cartrefi Cymunedol Gwynedd i drafod diffyg llefydd parcio ar y stad
- Mynychu cyfarfodydd Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug
- Helpu i ddatrys problemau gydag asiantaethau eraill
- Cynorthwyo etholwyr gyda'u hamrywiol broblemau a phryderon (cyffredinol a phersonol)

## Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

- Ffair Haf Ysgol Gynradd Llanrug 9 Mehefin 2018 (Beirniad)
- Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug – 10 cyfarfod (Corff Llawn, Is-bwyllgorau ayyb)
- Cyfarfodydd ychwanegol (un i un) gyda Phennaeth yr Ysgol Gynradd i drafod materion perthnasol parthed yr ysgol a'r gymuned

| | |
|---|---|
| Tai Teg - Pa Gynlluniau Sydd ar Gael | 20/02/2019 |
| Gofalu am ein Hamgylchedd | 28/11/2018 |
| YGC : Effaith Newid Hinsawdd ar Gymunedau Gwynedd | 21/11/2018 |
| Gofal Cymdeithasol Oedolion - Ymchwil Recriwtio a Chadw Staff Gofal Cartref | 28/09/2018 |
| Diogelu Plant ac Oedolion (2018) | 19/09/2018 |
| Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi | 06/09/2018 |
| Credyd Cynhwysol \| Universal Credit | 11/07/2018 |
| Llinellau Ffôn Uniongyrchol (Gangiau Cyffuriau Cyfundrefnol) | 27/06/2018 |
| Buddsoddi yng Ngwynedd | 09/05/2018 |